# MEINI PRAWF AROLYGIAD

**ar gyfer**

# AROLYGIAD LLAWN AR Y CYD

(i'w defnyddio mewn arolygiadau gyda gwaith maes
yn cychwyn ar 25ain Hydref ac wedi hynny)

Arolygiaeth Prawf EM | 1st Floor Manchester Civil Justice Centre| 1 Bridge Street West| Manchester | M3 3FX| 0161 2405336

## CYNNWYS


**RHAGARWEINIAD**

**1. LLEIHAU'R TEBYGRWYDD O AIL-DROSEDDU**

1.1. Mae gan waith i leihau'r tebygrwydd o ail-droseddu ganlyniadau positif a chynaliadwy

1.2. Mae asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i leihau'r tebygrwydd o ail-droseddu

1.3. Mae cynllunio'n cynyddu'r tebygrwydd o waith yn cwrdd â'r anghenion a aseswyd

1.4. Mae cyflenwi ymyriadau'n cynyddu'r tebygrwydd o leihad mewn ail-droseddu

1.5. Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn cynyddu'r tebygrwydd o leihau ail-droseddu

**2. DIOGELU'R CYHOEDD**

2.1. Mae gwaith rheoli'r risg o niwed i eraill yn cynyddu diogelwch dioddefwyr go iawn a rhai posibl

2.2. Mae asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith rheoli'r risg o niwed i eraill

2.3. Mae cynllunio yn cynyddu i'r eithaf y tebygrwydd o ddioddefwyr yn cael eu diogelu

2.4. Ymgymerir â gwaith sydd ei angen i reoli'r risg o niwed i eraill ac mae hyn o ansawdd da.

2.5. Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn sicrhau y diogelir y cyhoedd

**3. DIOGELU'R PLENTYN NEU'R PERSON IFANC**

3.1. Cyflawnir canlyniadau positif a chynaliadwy mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd

3.2. Mae asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc ac i leihau eu bregusrwydd

3.3. Mae cynllunio'n mwyhau'r tebygrwydd o blant a phobl ifanc gael eu diogelu

3.4. Ymgymerir â gwaith sydd ei angen, sydd o ansawdd da, i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc ac i leihau ei fregusrwydd

3.5. Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn sicrhau y diogelir plant a phobl ifanc a lleiheir eu bregusrwydd

**4. SICRHAU Y BWRIR CYFNOD[1] Y DDEDFRYD**

4.1. Cynyddir y tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus o'r ddedfryd gan ymgysylltiad o ansawdd da â'r plentyn neu berson ifanc a'i deulu

4.2. Mae plant a phobl ifanc yn bwrw'r ddedfryd maent wedi ei derbyn

4.3. Cynyddir y tebygrwydd o ganlyniad llwyddiannus i'r ddedfryd trwy gymryd sylw o anghenion iechyd, lles, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (ETE) ac unrhyw anghenion eraill y plentyn neu'r person ifanc

4.4. Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn sicrhau y cyrhaeddir nodau'r System Cyfiawnder Ieuenctid


[1] Mae'r gair 'Dedfryd' yn cyfeirio at holl ddedfrydau'r llys, pa un ai yn y ddalfa neu yn y gymuned.

## 5. MAE TREFNIADAU LLYWODRAETHU, PARTNERIAETH A RHEOLI YN EFFEITHIOL

5.1. Arweinyddiaeth a llywodraethu - mae amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol yn cael eu bodloni

5.2. Partneriaethau - mae partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

5.3. Rheoli'r gweithlu - mae rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn cefnogi cyflenwi gwasanaeth o ansawdd

5.4. Sefydliad sy'n dysgu - mae dysgu a gwella yn cynyddu'r tebygolrwydd bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni a'u cynnal

## RHAGARWEINIAD

Dylid defnyddio'r meini prawf arolygu hyn ar gyfer modiwl craidd yr Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI) o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr.
Maent yn nodi'r agweddau hynny ar y gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu sy'n cael eu cynnwys yn ein rhaglen arolygu. Dilynir pob un o'r meini prawf gan restr o'r dangosyddion ansawdd y mae arolygwyr yn eu defnyddio i asesu perfformiad.

O dan rhaglen FJI, rydym yn arolygu gwaith troseddau ieuenctid mewn nifer fach o ardaloedd awdurdodau lleol detholedig bob blwyddyn. Mae'r arolygiad yn canolbwyntio ar ansawdd y gwaith mewn achosion statudol, o'r ddedfryd hyd at ddyddiad yr arolygiad. Ei amcan yw ceisio sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn ddigon da i gyflawni'r canlyniadau cywir. Yn ychwanegol at ansawdd y gwaith, mae arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth yn cael eu harolygu hefyd o fewn y pedair thema sy'n seiliedig ar ymarfer i'r graddau y maent yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol ar ansawdd yr ymarfer; gyda thystiolaeth wedi'i thynnu o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys o arolygu achosion unigol.

Mae agweddau ar lywodraethu arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth yn cael eu harolygu o fewn pumed thema'r arolygiad. Mae'r meini prawf ar gyfer y thema hon yn darparu meincnod ar gyfer y llywodraethu a'r arweinyddiaeth strategol a geir ar draws y Bwrdd Rheoli a thu hwnt. Fel arolygiaethau sy'n gweithio ar draws gwahanol ddisgyblaethau, rydym yn chwilio am dystiolaeth am ba mor dda y mae partneriaid strategol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn gwella ansawdd, nid yn unig ar draws darpariaeth y TTI, ond hefyd ar draws gwasanaethau eraill o fewn y bartneriaeth TTI sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu.

Mewn arolygiadau a gynhelir yn Lloegr mae arolygydd o'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), ynghyd â dau arolygwr o Ofsted, sy'n arbenigo mewn dysgu a datblygu a gofal cymdeithasol, ac arolygydd o Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cymryd rhan mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Wrth arolygu yng Nghymru mae partneriaeth debyg gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW).

Gall pob Arolygiad FJI hefyd gynnwys un modiwl ychwanegol. Penderfynir ar y dewis o fodiwl ychwanegol fel arfer gan y rhesymau penodol am gynnal yr arolygiad hwnnw. Mae meini prawf ar gyfer modiwlau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

Mae rhaglen Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) fyrrach yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen FJI. O dan y rhaglen hon, rydym yn ymweld â rhwng 20 a 30 TTI bob blwyddyn i gynnal arolygiad byr. Mae meini prawf ar wahân yn cael eu cyhoeddi ar gyfer rhaglen SQS, sy'n is-set o'r rhaglen Arolygiad ar y Cyd. Mae rhaglen SQS yn canolbwyntio ar ansawdd y gwaith achos ar ddechrau'r ddedfryd drwodd yn bennaf at yr amser ar ôl y ddedfryd pan ddylai cynlluniau cychwynnol fod wedi bod ar waith. Mae'r rhaglen yn trin y gwaith cychwynnol hwn fel dangosydd o'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol ar ôl cwblhau'r ddedfryd lawn.

### Nodwch, os gwelwch yn dda:

**Tîm Troseddu Ieuenctid [YOT]** – Defnyddir y term generig YOT, gan mai hwn yw'r term a geir yn neddfwriaeth (Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod ardaloedd lleol yn ymarfer amrywiaeth o fodelau a thermau i gyflenwi'r nodau a amlinellir yn y Ddeddf. Rydym yn arolygu gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu gwaeth pwy sydd yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw mewn gwirionedd.

Adolygwyd Medi 2014

## 1. LLEIHAU'R TEBYGRWYDD O AIL-DROSEDDU

Lleiheir y tebygrwydd o ail-droseddu trwy wasanaethau a ddarperir gan yr YOT ac eraill. Mae asesu o ansawdd da a chynllunio, cyflenwi ymyriadau priodol, arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn cynyddu'r tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus.

### 1.1 Mae gan waith sy'n lleihau'r tebygrwydd o ail-droseddu ganlyniadau positif a chynaliadwy

1.1.1 Cyflawnir canlyniadau cynaliadwy mewn perthynas â'r tebygrwydd o ail-droseddu trwy arolygiaeth effeithiol gan yr YOT.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae lleihad mewn troseddu a gwelliant mewn ymddygiad perthnasol i droseddu.*
- *Cwblhawyd ymyriadau a gynlluniwyd i ateb y tebygrwydd o ail-droseddu gyda chanlyniadau positif.*
- *Mae gwelliant at ei gilydd o'r ffactorau hynny sydd wedi eu cysylltu'n agosaf at y tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Mae gwelliant mewn iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) a lleihad mewn camddefnyddio sylweddau, yn arbennig fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Mae gwelliant mewn Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE), yn arbennig fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Mae gwelliant, lle mae'n berthnasol, mewn trefniadau byw a gallu rhiant lle mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Gellir cynnal canlyniadau a gyflawnwyd, gan gynnwys trwy'r defnydd o gynlluniau gadael ac adnoddau partneriaethau.*

### 1.2 Mae asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i leihau'r tebygrwydd o ail-droseddu

1.2.1 Deellir anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn drylwyr, trwy asesu amserol ac o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Ymgymerir ag asesiad cynhwysfawr ac o ansawdd da o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu gan y plentyn neu'r person ifanc, sy'n cynnwys agweddau perthnasol o'u cyd-destun lleol neu gefndir eu teuluoedd. Mae'r asesiad yn gywir, amserol ac yn ddadansoddol.*
- *Mae asesiad digonol o anghenion iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) a cham-ddefnydd o sylweddau, yn arbennig fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Mae asesiad digonol o anghenion ETE, yn arbennig fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*

- *Mae asesiad digonol o drefniadau byw a gallu rhiant, yn arbennig fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Canfyddir ac asesir hefyd dylanwadau positif fel ffactorau cefnogol a rhai sydd yn rhag-gymdeithasol.*
- *Tynnir at ei gilydd safbwyntiau plant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a thystiolaeth arall i ffurfio asesiad cydlynol.*
- *Telir sylw digonol i ddeall rhwystrau i ymgysylltiad a ffactorau gwahaniaethau posibl eraill.*
- *Yn arbennig, mae asesu yn rhoi sylw digonol i iaith gyntaf neu ddewis iaith y plentyn neu'r person ifanc.*
- *Mae asesiadau'n tynnu'n ddigonol ar rai a gynhaliwyd ynghynt, gan gynnwys y rhai a gynhaliwyd gan asiantaethau eraill.*
- *Telir sylw digonol i ganfod a chael mynediad i asesiadau a gynhaliwyd gan asiantaethau eraill.*
- *Mae pob aelod o'r staff, ac asiantaethau eraill, lle bo angen, yn weithredol ac yn ystyrlon yn cymryd rhan yn yr asesiad.*
- *Rhennir canlyniadau'r asesiadau fel bo'n briodol â phob gweithiwr sydd yn cymryd rhan yn yr achos.*
- *Adolygir asesiadau'n rheolaidd, lle bo angen yn unol ag anghenion yr achos. Mae hyn yn cynnwys ar ddechrau'r ddedfryd lle cynhaliwyd yr asesiad cychwynnol ar gyfer adroddiad i'r llys, ac yn dilyn unrhyw newid sylweddol yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc neu dderbyn gwybodaeth newydd.*

1.2.2 Hybir dealltwriaeth o'r plentyn neu berson ifanc, eu hamgylchiadau a'u hymddygiad, gan y llysoedd drwy adroddiadau o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae adroddiadau'n effeithiol wrth ddylanwadu ar y canlyniad.*
- *Mae adroddiadau o ansawdd da ac yn cwrdd ag anghenion y darllenydd.*
- *Mae adroddiadau'n cynnwys asesiad trylwyr dadansoddol o'r tebygrwydd o ail-droseddu, risg o niwed a bregusrwydd.*
- *Lle bo'n berthnasol, mae adroddiadau'n cynnwys asesiad trylwyr o iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) a cham-ddefnyddio sylweddau.*
- *Lle bo'n berthnasol, mae adroddiadau'n cynnwys asesiad trylwyr a chywir o anghenion ETE.*
- *Mae adroddiadau'n darparu darlun clir a chywir o'r plentyn neu berson ifanc, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, aeddfedrwydd a ffactorau amrywiaeth perthnasol eraill neu wahaniaethu posibl, fel bo'u hangen at ddibenion yr adroddiad.*
- *Lle bo'n berthnasol, rhoddir sylw digonol i effaith ddedfryd o garchar.*
- *Mae adroddiadau'n cynnwys argymhellion clir a phriodol yn gymesur â difrifoldeb y drosedd a'r asesiad o'r plentyn neu berson ifanc.*

## 1.3 Mae cynllunio'n cynyddu'r tebygrwydd o waith yn cwrdd â'r anghenion a aseswyd

1.3.1 Mae cynlluniau amserol o ansawdd da yn eu lle ar gyfer gwaith i leihau'r tebygrwydd o ail-droseddu.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae cynlluniau ymyriad yn cwrdd â'r canlyniadau o'r asesiad perthnasol, ac maent wedi eu targedu ar y ffactorau hynny sy'n fwyaf tebygol o leihau troseddu*

- *Mae cynlluniau'n rhoi sylw digonol i iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) a cham-ddefnyddio sylwedddau yn arbennig gan fod y rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o aildroseddu.*
- *Mae cynlluniau'n rhoi sylw digonol i anghenion ETE, yn arbennig fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Mae cynlluniau'n rhoi sylw digonol i drefniadau byw a gallu rhiant, fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Trefnir cynlluniau ymyriad yn ôl risg o niwed, angen perthnasol i droseddu a, mewn achosion priodol, i leihau bregusrwydd.*
- *Rhoddir blaenoriaeth ddigonol i gryfhau neu atgyfnerthu ffactorau positif.*
- *Gosodir allan goliau clir, penodol a chyraeddadwy sy'n berthnasol ac yn ystyrlon i'r plentyn neu berson ifanc.*
- *Mae goliau canlyniadau a dwyster cyflenwi yn ymateb yn briodol i ffactorau amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethu posibl ac amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc unigol.*
- Mae cynlluniau yn amlinellu'n benodol sut y dylai ymyriadau i ymdrin ag ymddygiad *troseddol gael eu cyflenwi.*
- *Mae cynlluniau'n adlewyrchu'n glir safbwyntiau'r plentyn neu berson ifanc a, lle bo'n berthnasol, rai eu rhieni/gofalwyr ar flaenoriaethau am newid.*
- *Rhoddir blaenoriaeth ddigonol i gyfiawnder adferol a chwrdd ag anghenion dioddefwyr.*
- *Mae aelodau o staff ac asiantaethau eraill, gan gynnwys paneli cymunedol am orchmynion atgyfeirio, yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i helpu datblygu'r cynllun.*
- *Mae amcanion canlyniadau a dwysedd y cyflenwi yn ymateb yn briodol i ffactorau amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethol posibl ac amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc unigol. Mae cynlluniau yn egluro'r camau a fydd yn cael eu cymryd i ymdrin â'r ffactorau hyn mewn perthynas â darparu ymyriadau.*

1.3.2 Mae cynlluniau dedfrydau o garchar o ansawdd da ac maent yn cefnogi cyflenwi dedfryd integredig dda.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae aelodau o staff, a phartneriaid lle bo'u hangen, ymhlyg yn weithredol ac ystyrlon yn datblygu ac adolygu'r cynllun dedfryd o garchar.*
- *Mae cynlluniau dedfryd o garchar yn adlewyrchu'n glir yr asesiad o'r ffactorau hynny sy'n fwyaf tebygol o leihau troseddu.*
- *Mae cynlluniau dedfryd o garchar yn adlewyrchu'n glir safbwyntiau'r plentyn neu berson ifanc a, lle bo'n berthnasol, rai eu rhieni/gofalwyr.*
- *Mae cynlluniau dedfryd o garchar ar ba agweddau sydd i'w cyflenwi yn ystod pob un o gyfnodau carcharol a chymunedol y ddedfryd.*
- *Rhoddir ffocws digonol i gynllunio ail-sefydlu trwy gydol y cyfnod o'r ddedfryd yn y carchar.*

1.3.3 Cynhelir ansawdd a momentwm y gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc trwy adolygiadau rheolaidd ac addasiadau i'r cynllun lle bo'u hangen.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae adolygiadau rheolaidd, wedi eu hamserlennu, o effeithiolrwydd a phriodoledd y cynlluniau ymyriad.*
- *Mae adolygiadau'n ymateb yn briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc fel maent yn newid.*
- *Addasir cynlluniau, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cefnogi dysgu a chynlluniau eraill lle bo'u hangen ac maent yn parhau i fod o ansawdd da.*

- *Mae adolygiadau a chynlluniau yn adlewyrchu’n glir safbwyntiau’r plentyn neu berson ifanc a, lle bo’n berthnasol, rai eu rhieni/gofalwyr.*
- *Mae pob aelod o’r staff perthnasol ac asiantaethau eraill yn cymryd rhan digonol yn yr adolygiadau.*

## 1.4 Mae cyflenwi ymyriadau’n cynyddu’r tebygrwydd o leihad mewn ail-droseddu

1.4.1 Mae’r cyflenwad o ymyriadau o ansawdd da:

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae ymyriadau a gyflenwir o ansawdd da ac maent yn defnyddio adnoddau priodol sy’n ymgysylltu â’r plentyn neu’r person ifanc.*
- *Mae cyflenwi’r ymyriadau’n talu sylw digonol i’r ffactorau amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethu posibl ac amgylchiadau’r plentyn neu berson ifanc unigol.*
- *Yn arbennig, mae cyflenwi’r ymyriadau’n yn rhoi sylw digonol i iaith gyntaf neu ddewis iaith y plentyn neu’r person ifanc.*
- *Mae strwythur clir i’r ffordd y cyflenwir yr ymyriadau.*
- *Mae cyflenwi’r ymyriadau, gan gynnwys y rhai gan bartneriaid ac aelodau o staff eraill wedi ei gydlynu’n dda a’i drefnu’n briodol.*
- *Gweithredir cyflenwi ymyriadau yn unol ag ymarfer effeithiol.*
- *Mae ymyriadau a gyflwynir yn rhoi blaenoriaeth ddigonol i gyfiawnder adferol.*
- *Cyflwynir ymyriadau i ateb y posibilrwydd o ail-droseddu fel y bwriedir nhw.*
- *Telir sylw digonol i ddiogelwch ymyriad ac adnoddau dysgu, yn arbennig mewn sefyllfaoedd arbenigol ac ymarferol.*
- *Mae rhaglenni dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr, cyflogwyr a’r gymuned.*

1.4.2 Cyflenwir ystod briodol o ymyriadau i leihau’r tebygrwydd o ail-droseddu:

- *Mae ymyriadau’n gyson â’r asesiad a’r cynllun gwaith yn yr achos.*
- *Mae cyflwyno’r ymyriadau’n ymateb i adolygiadau o’r tebygrwydd o ail-droseddu a’r dilyniant a wneir, ynghyd ag anghenion a galluoedd y plentyn neu’r person ifanc.*
- *Mae ymyriadau a gyflenwir wedi eu canolbwyntio’n glir ar leihau’r tebygrwydd o ail-droseddu, rheoli risg o niwed ac, mewn achosion priodol, lleihau bregusrwydd.*
- *Pan ganfyddir anghenion perthnasol i droseddu mewn perthynas ag iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) neu gam-ddefnyddio sylweddau yna cyflenwir ymyriadau i ymateb i’r rhain.*
- *Pan ganfyddir anghenion perthnasol i droseddu mewn perthynas ag ETE yna cyflenwir ymyriadau i ymateb i’r rhain.*
- *Pan ganfyddir anghenion perthnasol i droseddu mewn perthynas ag amodau byw neu allu rhiant yna cyflenwir ymyriadau i ymateb y rhain.*
- *Pan ganfyddir anghenion perthnasol i droseddu mewn perthynas ag ansawdd gofal yna cyflenwir ymyriadau i ymateb i’r rhain.*
- *Mae cydbwysedd priodol rhwng ymyriadau a gyflenwir i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, rheoli risg o niwed i eraill a lleihau'r perygl o fod yn agored i niwed.*
- *Mae'r staff yn gweithio'n ddigon dyfal i sicrhau bod ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu yn cael eu cyflenwi fel a gynlluniwyd.*

1.4.3 Cyflenwir achosion o garchar fel un ddedfryd integredig unigol:

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae aelodau o'r staff yn rhan weithredol ac ystyrlon wrth gynllunio trwy gydol cyfnodau'r ddedfryd o garchar.*
- *Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr holl weithwyr sy'n rhan o'r achos, gan gynnwys gweithwyr iechyd, ETE, gofal cymdeithasol plant, camddefnyddio sylweddau a'r heddlu lle bo'n briodol.*
- Lle bo hynny'n briodol, cyflenwir ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu yn ystod cyfnod gwarchodol y ddedfryd.
- *Rhoddir sylw digonol i ail-sefydlu yn ystod y cyfnod carcharu o'r ddedfryd.*
- *Mae cynlluniau dedfryd cymunedol yn tynnu ar ac yn ategu ar waith a ymgymerir arno tra yn y ddalfa.*

## 1.5 Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn cynyddu'r tebygrwydd o leihau ail-droseddu

1.5.1 Mae rheolwyr yn effeithiol wrth fynd i'r afael â'r tebygrwydd o ail-droseddu trwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Ymgymerir ag ymyriadau i leihau'r tebygrwydd o ail-droseddu oddi mewn i fframwaith bolisi ac arferion clir. Rhoddir blaenoriaeth i gwrdd ag anghenion dioddefwyr a'r defnydd o gyfiawnder adferol.*
- *Mae rheolaeth a threfniadau eraill yn sicrhau ansawdd y gwaith i asesu ac ateb y tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Mae rheolaeth a threfniadau eraill yn sicrhau ansawdd adroddiadau.*
- *Mae systemau effeithiol i fonitro canlyniadau ac maent yn cefnogi gwelliannau parhaus.*
- *Seilir yr ystod o ymyriadau sydd ar gael oddi mewn i'r YOT i ateb y tebygrwydd o ail-droseddu ar ddadansoddiad angen. Lle mae'n briodol, mae gwaith effeithiol ag adrannau eraill i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr ac effeithiol o'r gwasanaethau sydd eu hangen.*
- *Mae adnoddau priodol ar gael ac fe'u defnyddir i ateb yr anghenion a asesir mewn achosion unigol.*
- *Mae partneriaid yn darparu adnoddau digonol ac yn cefnogi'r YOT, felly maent yn gwneud cyfraniad effeithiol i asesu a chynllunio, ac yng nghyflenwad ymyriadau, yn arbennig fel mae'r rhain yn berthnasol i'r tebygrwydd o ail-droseddu.*
- *Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad digonol i'r ymyriadau sydd eu hangen arnynt.*
- *Mae staff wedi eu hyfforddi'n ddigonol, maent yn gymwys ac yn brofiadol ac yn cael eu cefnogi i sicrhau bod ymyriadau yn cael eu cyflenwi i safon o ansawdd uchel.*
- *Mae'r YOT yn gwerthuso effeithiolrwydd ei ymyriadau. Defnyddir hyn i wella cyflenwi'r gwasanaeth.*
- *Mae trefniadau rheoli yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn manteisio ar ac yn cwblhau ymyriadau yn effeithlon; gan roi sylw digonol i'r dilyniannu, amserlennu, adnoddau, staffio a threfniadau ymarferol eraill ar gyfer cyflenwi ymyriadau.*
- *Mae'r TTI yn gwerthuso effeithiolrwydd ei ymyriadau. Defnyddir data a dadansoddi sy'n deillio o hyn i wella ymarfer.*

## 2. DIOGELU'R CYHOEDD

Cedwir dioddefwyr go iawn a rhai posibl yn ddiogel trwy reoli effeithiol o'r risg o niwed i eraill. Bydd asesu a chynllunio o ansawdd da, cyflenwi ymyriadau priodol, arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn cynyddu'r tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus.

### 2.1 Mae gwaith rheoli risg o niwed i eraill yn cynyddu diogelwch dioddefwyr go iawn a rhai posib

2.1.1 Cyrhaeddir canlyniadau positif cynaliadwy mewn perthynas â risg o niwed i eraill trwy oruchwylio effeithiol gan yr YOT.

*Dangosyddion ansawdd:*

- *Cyflenwir ymyriadau i ateb y risg o niwed fel y'u bwriedir.*
- *Diogelir y cyhoedd a dioddefwyr go iawn neu rai posibl a ganfuwyd, gydag unrhyw risg o niwed yn cael ei reoli'n dda.*
- *Cymerir pob cam rhesymol i gadw at y lleiafswm y risg posibl o blentyn neu berson ifanc yn creu niwed i eraill.*
- *Gall gwelliannau a gyflawnwyd mewn perthynas â risg o niwed gael eu cynnal, gan gynnwys trwy ddefnyddio cynlluniau gadael ac adnoddau partneriaethau sy'n hyrwyddo ailintegreiddiad wedi ei gynllunio ac sy'n briodol yn y gymdeithas ehangach.*

### 2.2 **Mae asesu'n darparu fframwaith gadarn ar gyfer gwaith rheoli risg o niwed i eraill**

2.2.1 Deellir y risg o niwed gan y plentyn neu'r person ifanc yn drwyadl, trwy asesu amserol ac o ansawdd da sy'n cymryd anghenion dioddefwyr i ystyriaeth.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae asesiad o risg o niwed i eraill, gan gynnwys sgrinio cychwynnol, o ansawdd da; yn amserol, cynhwysfawr a dadansoddol; yn ateb pob agwedd o ymddygiad niweidiol go iawn a rhai sy'n bosibl sy'n berthnasol i'r achos.*
- *Mae'r asesiad yn nodi'n glir y natur a lefel y risg i ddioddefwyr go iawn a rhai posibl, gan gynnwys aelodau o'r staff a'r cyhoedd, ac adlewyrcha'n ddigonol unrhyw ffactorau amrywiaeth neu wahaniaethol posibl yn yr achos.*
- *Rhoddir sylw penodol i anghenion dioddefwyr bregus, ysgogiad a chyd-destun lle mae niwed wedi digwydd neu ble y gall ddigwydd.*
- *Mae'r dosbarthiad Risg o Niwed Difrifol (RoSH), y categori a'r lefel Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), lle maent yn briodol, yn glir a chywir ac fe'u cyfathrebir hwy i bob aelod perthnasol o'r staff ac asiantaethau eraill.*
- *Mae adroddiadau i'r llysoedd ac eraill yn cynnwys asesiad clir a thrylwyr o risg o niwed i eraill.*
- *Mae asiantaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn yr asesiad o risg o niwed, gan gynnwys lle mae'n briodol ymgymryd ag asesiadau aml-asiantaethol.*
- *Mae asesiadau'n tynnu'n ddigonol ar MAPPA, asiantaethau eraill ac asesiadau blaenorol.*

- *Mewn achosion carcharol mae'r asesiad yn glir ynglŷn â'r risg o niwed sy'n berthnasol yn y carchar ac yn y gymuned.*

## 2.3 Mae cynllunio'n cynyddu'r tebygrwydd o ddioddefwyr yn cael eu diogelu

2.3.1 Mae cynlluniau amserol ac o ansawdd da yn cynyddu'r tebygrwydd o ddioddefwyr go iawn a rhai posibl yn cael eu diogelu a'r risg o niwed i eraill yn cael ei leihau.

Dangosyddion ansawdd:

- *Cwblheir cynllun cyfredol a chynhwysfawr i reoli risg o niwed lle bo'i angen, mae'n cynnwys risg i ddioddefwyr penodol lle mae hynny'n berthnasol.*
- *Adolygir y cynllun i reoli risg o niwed yn rheolaidd, a'i addasu lle bo angen.*
- *Rhoddir blaenoriaeth benodol i oresgyn rhwystrau i ymgysylltu gan y plentyn neu berson ifanc a all gael effaith ar reoli'r risg o niwed.*
- *Mae cynlluniau i reoli risg o niwed yn glir a phenodol, yn briodol i amgylchiadau'r achos, gyda chysylltiad clir rhwng yr asesiad a'r cynllun.*
- *Mae cynlluniau'n rhagweld newidiadau mewn risg o niwed/ffactorau difrifol lle bynnag mae hynny'n bosibl, ac maent yn cynnwys cynllunio at raid digonol.*
- *Mae cynlluniau'n fanwl am rolau a chyfrifoldeb i'w cyflenwi.*
- *Mae trefniadau am rannu gwybodaeth am yr achos â phartneriaid neu eraill yn glir a manwl. Lle mae'n briodol, fe'u deellir, a chytunir arnynt gan y bobl sy'n rhan ohonynt.*
- *Cyfathrebir cynlluniau a chytunir arnynt gan bawb sy'n ymwneud â'u cyflenwi.*
- *Mewn achosion o ofal gwarchodol mae cynlluniau yn glir ynghylch pa gamau i'w cymryd yn ystod pob un o gamau gwarchodol a chymunedol y ddedfryd, gan gynnwys camau i reoli risg o niwed i eraill i baratoi ar gyfer eu rhyddhau.*
- *Mae asiantaethau'n gweithio'n dda â'i gilydd wrth gynllunio gwaith risg o niwed.*
- *Defnyddir MAPPA yn effeithiol ar gyfer achosion priodol.*
- *Mae cynlluniau ymyriad yn cynnwys gweithredoedd i reoli risg o niwed lle mae angen y rhain ac yna fe'u trefnir yn ôl y risg o niwed.*

## 2.4 Gwneir gwaith sydd ei angen i reoli'r risg o niwed i eraill ac mae hyn o ansawdd da

2.4.1 Diogelir dioddefwyr a lleiheir y risg o niwed i eraill trwy reoli gweithredol trwy gydol y ddedfryd.

Dangosyddion ansawdd:

- *Rheolir risg o niwed yn weithredol trwy gydol cyfnod y ddedfryd.*
- *Mae cyd-weithio effeithiol ag eraill sy'n rhan o'r achos, gan gynnwys asiantaethau eraill, i reoli'r risg o niwed.*
- *Rhoddir blaenoriaeth i gyflenwi ymyriadau adeiladol mewn perthynas â rheoli'r risg o niwed, a monitro ymyriadau cyfyngol.*
- *Cyflenwir ymyriadau i reoli risg o niwed, p'run ai'n adeiladol neu'n gyfyngol, fel y'u cynllunnir, yn briodol i amgylchiadau'r achos, ac maent o ansawdd da.*
- *Adolygir risg o niwed yn rheolaidd ac yn drylwyr ar adegau priodol ac yn dilyn newid sylweddol a all godi pryder.*
- *Canfyddir newidiadau i ffactorau risg o niwed yn gyflym a gweithredir arnynt yn briodol, gan gynnwys defnyddio tor achosion mewn achosion priodol er mwyn diogelu'r cyhoedd.*

- *Mae aelodau o staff ac asiantaethau eraill sy'n gweithio â'r plentyn neu berson ifanc yn deall y risg o niwed a grëir ganddynt, a'u cyfraniad i'w reoli.*
- *Mae rheolwyr achosion a holl aelodau'r staff perthnasol eraill yn cyfrannu'n effeithio i brosesau MAPPA a chyfarfodydd aml-asiantaethol eraill mewn perthynas â risg o niwed; gan gynnwys dilyn gweithgareddau yn dilyn cyfarfodydd.*
- *Cynhelir ymweliadau pwrpasol â'r cartref yn unol â'r risg o niwed a asesir trwy gydol cyfnod y ddedfryd.*
- *Gweithredir lle mae angen i fonitro a diogelu diogelwch dioddefwyr go iawn a rhai posibl trwy gydol y ddedfryd, yn arbennig y rhai a ystyrir yn fregus.*
- *Pan drosglwyddir achosion, mae cyd-weithio rhwng yr Ymddiriedolaeth Brawf Leol ac YOTau eraill yn sicrhau parhad gwasanaethau i reoli risg o niwed.*

## 2.5 Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn sicrhau y diogelir y cyhoedd

2.5.1 Mae arweinyddiaeth bositif yn sicrhau bod gan y gwaith i reoli risg o niwed i eraill ddigon o flaenoriaeth. Mae rheolwyr yn effeithiol mewn sicrhau bod y risg o niwed wedi ei reoli'n iawn, trwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Darperir arweinyddiaeth glir ac effeithiol i sicrhau bod gan y gwaith o reoli risg o niwed flaenoriaeth uchel.*
- *Mae adnoddau priodol ar gael, naill ai'n fewnol neu gan bartneriaid, a ddyrennir wedyn yn unol â'r risg o niwed a aseswyd.*
- *Gwneir cyfraniad strategol effeithiol i MAPPA a threfniadau lleol er mwyn diogelu'r cyhoedd.*
- *Mae YOTau'n ymgysylltu â phartneriaid lleol, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, i sicrhau cyfraniad effeithiol i waith i reoli risg o niwed.*
- *Mae rheolaeth weithredol o risg o niwed yn sicrhau ansawdd o ymarfer ac fe'i hymgymerir oddi mewn i fframwaith polisi ac arferion clir, gyda chyfrifoldebau am reoli'r risg o niwed wedi eu deall a'u defnyddio gan holl aelodau'r staff perthnasol ac asiantaethau.*
- *Lle mae fforymau mewnol yn cyfrannu at arolygu'r gwaith i reoli risg, yna mae'r rhain yn effeithiol.*
- *Mae rheolwyr yn sicrhau y cyflenwir gwasanaethau sydd eu hangen i reoli neu ateb risg o niwed fel bo'u hangen.*

## 3. DIOGELU'R PLENTYN NEU'R PERSON IFANC

Cedwir plant a phobl ifanc yn ddiogel a lleiheir eu bregusrwydd trwy arweinyddiaeth bositif a rheolaeth effeithiol o achosion gan yr YOT a'i bartneriaid. Mae'r YOT yn gwneud cyfraniad effeithiol i drefniadau aml-asiantaethol i ddiogelu'r plentyn.

### 3.1 Cyflawnir canlyniadau positif a chynaliadwy mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd

3.1.1 Cyflawnir canlyniadau positif a chynaliadwy mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd, trwy arolygiaeth effeithiol gan yr YOT ac ymgysylltu â threfniadau lleol i ddiogelu plant.

Dangosyddion ansawdd:

- *Cyflenwir ymyriadau i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd fel y'u cynllunnir.*
- *Gweithredir ym mhob ffordd sydd ei hangen i ddiogelu plant a phobl ifanc, yn arbennig trwy ymgysylltu â threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant.*
- *Mae ymyriad effeithiol, gan gynnwys ymyriad ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill, yn cyflawni canlyniadau positif a chynaliadwy wrth leihau bregusrwydd.*

### 3.2 Mae asesu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc ac i leihau eu bregusrwydd

3.2.1 Deellir diogelwch plant ac anghenion bregusrwydd yn drwyadl, trwy asesu amserol ac o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae asesu amserol ac o ansawdd da gan yr YOT a'i bartneriaid, yn sefydlu lefel o ddiogelwch y plentyn neu'r person ifanc a'i fregusrwydd.*
- *Os oes angen, gweithredir trefniadau ffurfiol i ddiogelu'r plentyn. Mewn achosion fel hyn, mae ymgysylltiad effeithiol ac amserol â threfniadau lleol i ddiogelu plant i gefnogi cwblhau'r asesiad o ddiogelu'r plentyn.*
- *Mae asiantaethau'n rhannu gwybodaeth yn briodol.*
- *Mae'r asesiad yn nodi'n glir natur a lefel y risg i'r plentyn neu berson ifanc, ac yn cydnabod yn briodol unrhyw ffactorau ethnigrwydd neu amrywiaeth, gan gynnwys sut maent yn berthnasol i'w iaith gyntaf neu ei ddewis iaith.*
- *Mae'r plentyn neu berson ifanc a, lle mae'n briodol, rhieni/gofalwyr yn rhan weithredol o'r asesiad.*
- *Mae cysylltiad effeithiol â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wrth wneud yr asesiad, i sicrhau ei fod yn cael ei lywio â gwybodaeth a dderbyniwyd o unrhyw gysylltiad blaenorol.*

- *Mae asesiad yn tynnu ar rai a gynhaliwyd ynghynt gan yr YOT ac asiantaethau eraill, gan gynnwys, rai gan yr heddlu, sefydliadau diogel gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a gwasanaethau addysg, iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) a gwasanaethau camddefnyddio sylwedddau.*
- *Mewn achosion o garchar, ac achosion lle gosodir y plentyn neu'r person ifanc mewn gofal diogel, mae'r asesiad yn glir am eu bregusrwydd sy'n berthnasol yn y sefydliad ac yn y gymuned, a chyfathrebir hyn yn effeithiol i bawb sy'n ymhlyg yn yr achos.*
- *Adolygir asesiad o fregusrwydd yn rheolaidd ar adegau priodol ac yn dilyn newid sylweddol a all godi fel mater o breeder.*
- *Mae cyfathrebu da o ganlyniadau'r asesu i bawb sy'n ymhlyg gan gynnwys y plentyn neu berson ifanc a'i rieni/ofalwyr.*
- *Mae adroddiadau i'r llys ac i eraill yn cynnwys asesiad clir a thrylwyr o fregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc.*

## 3.3 Mae cynllunio yn mwyhau'r tebygrwydd o blant a phobl ifanc yn cael eu diogelu

3.3.1 Mae cynlluniau amserol ac o ansawdd da yn mwyhau'r tebygrwydd o blant a phobl ifanc yn cael eu diogelu ac yn ateb eu hanghenion bregusrwydd.

Dangosyddion ansawdd:

- *Cwblheir cynllun cynhwysfawr a chyfredol sy'n alwg yn cymryd i ystyriaeth ethnigedd ac amrywiaeth, er mwyn lleihau bregusrwydd lle mae asesiad yn dangos bod angen amddiffyn ar blentyn neu berson ifanc.*
- *Mae'r cynllun yn glir ac yn benodol ac yn ateb risgiau ac anghenion y plentyn neu berson ifanc a ganfuwyd yn yr asesiad.*
- *Mae cynlluniau'n dangos y rhoir sylw digonol i iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) ac i leihau camddefnyddio sylwedddau.*
- *Mae cynlluniau'n rhoi sylw digonol i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE), yn arbennig lle mae'r rhain yn berthnasol i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc a lleihau ei fregusrwydd.*
- *Mae cynlluniau'n rhoi sylw digonol i drefniadau byw a gallu rhieni, lle mae'r rhain yn berthnasol i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc a lleihau ei fregusrwydd.*
- *Mae aelodau'r staff yn cyfrannu i ddatblygu cynlluniau diogelu plant ac yn sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu cyfraniad yr YOT yn gywir.*
- *Lle mae'n angenrheidiol, mae aelodau o'r staff yn herio penderfyniadau asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod y cynlluniau priodol i ddiogelu plant yn eu lle.*
- *Rhagwelir newidiadau mewn ffactorau diogelwch plant a bregusrwydd ac fe'u hadeiladir hwy i mewn i gynlluniau at raid a rennir ar draws asiantaethau lle bo angen.*
- *Mae cynlluniau'n glir ac yn fanwl ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau am eu cyflenwi ac fe'u cyfathrebir yn effeithiol i bawb sy'n rhan o'u cyflenwi.*
- *Mae trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr achos â phartneriaid neu eraill yn glir, manwl ac wedi eu deall.*
- *Lle mae'n briodol, integreiddir cynlluniau i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc a lleihau ei fregusrwydd i gynlluniau gwaith eraill gyda'r plentyn neu berson ifanc.*
- *Ym mhob achos lle gosodir plant a phobl ifanc mewn stad ddiogel, mae cynlluniau'n nodi'r gwaith i'w wneud yn y sefydliad, fel paratoad am, ac yn dilyn eu rhyddhau i'r gymuned.*

- *Mae asiantaethau'n gweithio â'i gilydd yn dda wrth baratoi trefniadau cynllunio i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu bregusrwydd. Gwneir cyfraniad effeithiol gan yr YOT i gynlluniau'r asiantaethau eraill.*
- *Adolygir cynlluniau i reoli bregusrwydd ar adegau priodol yn rheolaidd, ac fe'u haddasir lle bo angen.*
- *Gwneir pob cyfeirio angenrheidiol i asiantaethau eraill i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc, ac unrhyw blentyn neu berson ifanc a effeithir.*

## 3.4 Gwneir gwaith sydd ei angen, sydd o ansawdd da, i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc ac i leihau ei fregusrwydd

3.4.1 Diogelir plant a phobl ifanc a lleiheir eu bregusrwydd trwy reoli'r achos yn weithredol trwy gydol y ddedfryd.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae pob gweithred angenrheidiol yn cael ei gymryd yn syth, gan gynnwys rhannu gwybodaeth, er mwyn diogelu'r plentyn neu berson ifanc hysbys i'r YOT, ac unrhyw blentyn neu berson ifanc a ganfyddir.*
- *Mae aelodau'r staff yn gweithio'n effeithiol ag asiantaethau eraill i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc ac i leihau ei fregusrwydd.*
- *Adolygir bregusrwydd yn rheolaidd a thrylwyr, gan gynnwys mewn amgylchiadau lle mae digwyddiad sylweddol wedi digwydd a all fod yn fater o bryder.*
- *Mae aelodau'r staff yn chwarae rôl weithredol mewn sicrhau bod gwaith gan bartneriaid yn amserol ac yn effeithiol, gan gynnwys cyfraniad effeithiol i bob cyfarfod amlasiantaethol perthnasol.*
- *Canfyddir newidiadau mewn lefelau risg a bregusrwydd yn gyflym a gweithredir arnynt yn briodol.*
- *Rhoddir blaenoriaeth ddigonol i gyflenwi ymyriadau i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc ac i leihau ei fregusrwydd.*
- *Cyflenwir ymyriadau fel y'u cynllunnir, maent yn briodol i amgylchiadau'r achos, ac maent o ansawdd da.*
- *Mewn achosion o garchar, hysbysir y sefydliad diogel gan yr YOT o fregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc cyn y ddedfryd a gweithredir ar y wybodaeth hon. Lle na all y sefydliad gwrdd â'i anghenion, mae'r YOT yn cyflwyno sylwadau i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) yn gofyn am newid lleoliad.*
- *Mewn achosion o garchar rhoddir sylw digonol i ddiogelwch y plentyn a bregusrwydd fel paratoad ar gyfer rhyddhau yn y gymuned.*
- *Cynhelir ymweliadau pwrpasol â'r cartref yn unol ag unrhyw gynllun diogelu neu ddiogelwch plant, ac i gefnogi asesu parhaus, trwy gydol y ddedfryd.*
- *Gwelir plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain yn rheolaidd, i sicrhau deellir eu hanghenion a'u pryderon newidiol yn dda.*

## 3.5 Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn sicrhau y diogelir plant a phobl ifanc a lleiheir eu bregusrwydd.

3.5.1 Mae arweinyddiaeth bositif yn sicrhau bod gan waith i ddiogelu plant a phobl ifanc ac i leihau eu bregusrwydd flaenoriaeth ddigonol. Mae rheolwyr yn effeithiol wrth sicrhau y cyflenwir y blaenoriaethau hyn yn gywir trwy ddarparu gwasanaethau priodol ac o ansawdd da.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae arweinyddiaeth glir ac effeithiol yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu plant a phobl ifanc.*
- *Mae rheolwyr yn sicrhau y cyflenwir gwasanaethau i ddiogelu plant a phobl ifanc yn ôl yr angen.*
- *Defnyddir yn weithredol wybodaeth o berfformiad rheolwyr, adolygiadau o achosion difrifol a dysgu eraill er mwyn gwella gwasanaethau.*
- *Defnyddir adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac aelodau'r staff gan YOT i wella gwasanaethau.*
- *Gwneir cyfraniad gweithredol ac effeithiol gan yr YOT i drefniadau lleol i ddiogelu plant.*
- *Mae partneriaid lleol yn gweithio â'i gilydd yn dda i ddiogelu a lleihau bregusrwydd plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r YOT.*
- *Mae cyd-weithio effeithiol â'r gwasanaeth gofal cymdeithasol lleol i blant, sy'n cynnwys rhoi arbenigedd gwaith cymdeithasol digonol ar gael a rhoi cyngor i'r YOT.*
- *Mae rheolwyr yn sicrhau bod trefniadau mynediad a throthwyau ar gyfer cyfeirio i wasanaethau gofal cymdeithasol eraill yn eu lle, maent yn glir ac fe'u deellir hwy gan aelodau staff YOT yn dda.*
- *Mae rheolwyr yn sicrhau bod trefniadau effeithiol i ateb anghenion iechyd plant a phobl ifanc (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol). Mae hyn yn cynnwys camddefnyddio sylweddau.*
- *Mae rheoli gweithredol o waith i ddiogelu a lleihau bregusrwydd plant a phobl ifanc yn effeithiol mewn sicrhau bod ansawdd yr ymarfer o leiaf yn dda, cofnodir gwaith yn glir ac fe'i gwneir oddi fewn i fframwaith polisi ac arferion clir gyda chyfrifoldebau wedi eu deall a'u defnyddio gan holl aelodau'r staff ac asiantaethau perthnasol.*
- *Mae rheolwyr yr YOT yn sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i fonitro dilyniant pob plentyn a pherson ifanc mae ganddynt bryderon am ei ddiogelwch a'i les.*

## 4. SICRHAU Y BWRIR CYFNOD Y DDEDFRYD

Mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â'u dedfryd, cymryd sylw o iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc, arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn cynyddu'r tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus i'r ddedfryd.

### 4.1 Cynyddir y tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus i'r ddedfryd gan ymgysylltiad o ansawdd da â'r plentyn neu berson ifanc a'i deulu

4.1.1 Ymgysylltir yn ystyrlon â'r plentyn neu berson ifanc a'i rieni/ofalwyr trwy gydol eu cysylltiad â'r YOT.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae ymgysylltu gweithredol ac ystyrlon â'r plentyn neu berson ifanc a rhieni/gofalwyr i ymgymryd ag asesiadau ac adolygiadau.*
- *Mae asesiadau'n caniatau cyfle digonol i blant a phobl ifanc adrodd eu stori.*
- *Mae asesiadau'n adlewyrchu safbwyntiau'r plentyn neu berson ifanc, rhiant/gofalwyr ac unrhyw rai arwyddocaol eraill.*
- *Mae plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn deall adroddiadau a rhoir copi o adroddiadau'r llys cyn y dyddiad llys iddynt.*
- *Mae plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cael ei cynnwys yn weithredol yn natblygiadau cynlluniau, a darperir hwy â chopi amserol.*
- *Mae cynlluniau'n ystyrlon i blant a phobl ifanc, wedi eu hysgrifennu mewn iaith y maent yn ei deall ac yn adlewyrchu'n glir eu barn ar flaenoriaethau ar gyfer newid. Rhoddir sylw digonol i sicrhau eu bod yn deall a, lle mae'n bosibl, eu bod yn eu perchnogi.*
- *Mae gan reolwyr yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu goruchwyliaeth broffesiynol ac i ddal staff yn atebol am sicrhau bod y gwaith o ansawdd da a bod amcanion y ddedfryd yn cael eu bodloni.*
- *Mae aelodau staff yn cynnal perthynas gwaith â'r plentyn neu berson ifanc, yn eu hysgogi ac yn atgyfnerthu ymddygiad positif.*
- *Mewn achosion o garchar, mae gan aelodau staff ymgysylltiad effeithiol â phlant a phobl ifanc yn ychwanegol at ofynion y cyfarfodydd cynllunio ffurfiol.*
- *Mae staff yn cefnogi plant a phobl ifanc trwy gydol cyfnod eu dedfryd.*
- *Cysylltir â rhieni/gofalwyr fel bo'n briodol trwy gydol y cyfnod cyflenwi ymyriadau, yn arbennig rhai i gefnogi gwaith YOT.*

4.1.2 Cynyddir y tebygrwydd o ganlyniadau llwyddiannus trwy ganfod ac ymateb i rwystrau ymgysylltu effeithiol.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae asesiad amserol ac o ansawdd da o rwystrau posibl i ymgysylltiad a mynediad i wasanaethau gan y plentyn neu berson ifanc, gan gynnwys anghenion dysgu, ffactorau anabledd a ffactorau gwahaniaethu neu amrywiaeth posibl. Lle bo'n briodol, gosodir cynlluniau i leddfu eu heffaith.*

- *Rhoddir sylw digonol i ganfod iaith gyntaf neu ddewis iaith y plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Lle mae'n briodol rhoddir sylw digonol priodol i alluogi'r plentyn neu berson ifanc a'i rieni/ofalwyr weithio â'r YOT yn eu hiaith gyntaf neu ddewis iaith.*
- *Rhoddir sylw penodol ym mhob achos i ddeall a chwrdd ag anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu plant a phobl ifanc i sicrhau bod dulliau gwaith yn ateb eu hanghenion unigol.*
- *Cyfathrebir asesiadau a chynlluniau i ateb ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu yn glir â phawb sy'n gysylltiedig â'r achos.*
- *Rhoddir sylw digonol i faterion o fregusrwydd ac iechyd a lles, lle mae'r rhain yn gweithredu fel rhwystr i ymgysylltu effeithiol â'r ddedfryd.*

## 4.2 Mae plant a phobl ifanc yn bwrw'r ddedfryd maent wedi ei derbyn

4.2.1 Cyfarfyddir â gofynion y ddedfryd, a lle mae'n briodol, cymerir camau gorfodi yn dilyn diffyg cydymffurfio.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae'r plentyn neu berson ifanc a, lle mae'n briodol ei rieni/ofalwyr, yn deall gofynion y ddedfryd.*
- *Mae aelodau staff yn ysgogi plant a phobl ifanc i gydymffurfio â'r ddedfryd.*
- *Gweithredir i ddeall ac i fynd i'r afael â rhwystrau i gydymffurfio.*
- *Mae plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â'u dedfryd neu, mewn achosion priodol, mae cydymffurfio â'r ddedfryd yn gwella.*
- *Lle mae'r plentyn neu berson ifanc yn methu cydymffurfio â'r ddedfryd mae ymateb priodol, gan gynnwys achos o doriad lle bo hynny'n briodol.*
- *Trefnir cyswllt digonol â phlentyn neu berson ifanc i gwrdd â gofynion y ddedfryd.*
- *Rhoddir sylw digonol i roi ar waith holl ofynion y ddedfryd.*
- *Lle mae'n briodol, defnyddir diddymu buan i gynyddu'r tebygrwydd o ganlyniad llwyddiannus.*

## 4.3 Cynyddir y tebygrwydd o ganlyniad llwyddiannus i'r ddedfryd trwy gymryd sylw o anghenion iechyd, lles, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (ETE) ac anghenion eraill y plentyn neu'r person ifanc

*4.3.1* Telir sylw digonol i iechyd, lles, ETE ac unrhyw anghenion eraill y plentyn neu berson ifanc, yn arbennig lle gall y rhain weithredu fel rhwystr i ganlyniadau llwyddiannus o'r ddedfryd.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae aelodau staff ac asiantaethau partner yn gweithio â'i gilydd yn dda i hybu iechyd a lles y plentyn neu berson ifanc, ac i'w gefnogi trwy gydol cyfnod ei ddedfryd.*
- *Mae aelodau staff ac asiantaethau perthnasol eraill yn gweithio â'i gilydd i sicrhau bod y trawsnewid o'r carchar i'r gymuned yn cynnal dilyniant yn y ddarpariaeth o wasanaeth prif ffrwd a gwasanaethau eraill.*
- *Gwneir atgyfeiriadau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag anghenion iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol), camddefnyddio sylweddau, ETE, gofal cymdeithasol ac anghenion eraill, er enghraifft trefniadau byw, mewn perthynas â'r plentyn neu berson ifanc.*

- *Cyflwynir ymyriadau i hybu iechyd, lles ac anghenion eraill y plentyn neu berson ifanc, pan gysylltir y rhain â'r tebygrwydd o ail-droseddu, risg o niwed neu fregusrwydd. Mae asiantaethau'n gweithio â'i gilydd i gydlynu ymyriadau.*
- *Mae aelodau staff ac asiantaethau partner yn gweithio â'i gilydd yn dda i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn yr ymyriadau cywir, yn symud ymlaen yn iawn ac yn cyflawni canlyniadau llwyddiannus yn ETE.*
- *Mae gwelliannau mewn perthynas ag iechyd, lles ac anghenion ETE yn gynaliadwy, yn arbennig trwy ddefnyddio adnoddau partneriaeth.*
- *Rhoddir sylw, mewn achosion priodol, i ail-integreiddio effeithiol yn y gymuned ehangach.*

## 4.4 Mae arweinyddiaeth bositif, rheoli effeithiol a gwaith mewn partneriaeth yn sicrhau y cyrhaeddir amcanion y System Cyfiawnder Ieuenctid

4.4.1 Mae arweinyddiaeth bositif yn effeithiol mewn ffocysu gwaith ar ac ymateb yn briodol i flaenoriaethau allweddol lleol a chenedlaethol, ac ar anghenion cymunedau lleol.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae ffocws clir ar welliant parhaus, gyda fframwaith cynllunio a hunan asesiad cryf sy'n sicrhau fod meysydd datblygu yn cael eu deall a mynd i'r afael â hwy, ac y gwellir ansawdd y ddarpariaeth.*
- *Canfyddir dysgu o ganlyniadau positif a negyddol ac fe'i defnyddir i wella ymarfer.*
- *Mae ymateb positif ac amserol i wella gwasanaethau i'r YJB, datblygiadau polisi cenedlaethol a lleol, arolygiaeth ac awdit, blaenoriaethau a threfniadau gwelliant.*
- *Mae partneriaid yn gweithio â'i gilydd i sicrhau darperir adnoddau digonol i gwrdd â blaenoriaethau lleol, cenedlaethol a statudol, ac i sicrhau canlyniadau positif i blant a phobl ifanc.*
- *Rhoddir blaenoriaeth i geisio barn partneriaid, darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau am y gwasanaethau a ddarperir gan yr YOT; gan gynnwys plant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a dioddefwyr. Defnyddir eu safbwyntiau i wella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.*
- *Defnyddir rheoli perfformiad a dysgu arall yn weithredol er mwyn gwella gwasanaethau.*
- *Mae cynrychiolwyr yr YOT ar fforymau strategol yn eiriol ar ran yr YOT i sicrhau adnoddau a gwasanaethau ar gyfer ailsefydlu plant a phobl ifanc yn llwyddiannus.*
- *Canfyddir ffactorau amrywiaeth perthnasol i gymunedau lleol, gan gynnwys ethnigrwydd a phatrymau troseddu, a gosodir cynlluniau i ateb eu heffaith.*
- *Mae'r YOT a'i bartneriaid yn hybu'n weithredol cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n ateb ffactorau gwahaniaethu go iawn neu rai posibl.*
- *Rhoddir sylw digonol i sicrhau y gellir ymgymryd â gwaith â phlant neu bobl ifanc, a'u rhieni/gofalwyr, yn eu dewis iaith.*
- *Mae aelodau o staff yn deall, yn perchnogi ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r sefydliad.*

4.4.2 Mae rheolwyr a phartneriaid yn effeithiol wrth sicrhau bod yr YOT yn gallu cyflenwi gwasanaethau o ansawdd da ac ateb anghenion plant a phobl ifanc.

Dangosyddion ansawdd:

- *Mae gan reolwyr y lefel o wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol o aelodau staff ac arolygiaeth o'r gwaith.*

- *Arolygir aelodau o staff, pobl ar secondiad a gwirfoddolwyr yn dda, a'u hyfforddi (gan gynnwys ymsefydlu'n drylwyr aelodau newydd o staff) a'u cefnogi i gyflenwi eu gwaith i safon uchel, oddi mewn i fframwaith sicrhau ansawdd a gymhwysir yn glir ac yn gyson.*
- *Mae rheolwyr yn sicrhau bod cofnodion yr achos yn gywir ac yn amserol ac yn cofnodi'r gwaith sydd wedi ei ymgymryd yn glir.*
- *Mae hyfforddi aelodau'r staff yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac yn hyrwyddo cyfleoedd datblygu, gydag anghenion hyfforddiant a chynlluniau hyfforddiant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.*
- *Hyfforddir aelodau staff i adnabod ac ymateb yn briodol i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLCN), a ffactorau amrywiaeth neu ffactorau gwahaniaethau posibl eraill.*
- *Mae adnoddau ar gyfer ymyriadau, yn ysgrifenedig a dulliau eraill o gyfathrebu, yn briodol ar gyfer anghenion amrywiol plant a phobl ifanc.*
- *Ymgysylltir â phlant a phobl ifanc ac ymateb i ddiffyg cydymffurfio oddi mewn i fframwaith polisi ac arferion clir.*
- *Mae gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gofal cymdeithasol lleol plant, addysg, iechyd a gwasanaethau llety, yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i'r gwasanaethau maent eu hangen, gan gynnwys y rhai hynny i ateb anghenion lleferydd, iaith a cyfathrebu.*
- *Mae partneriaid yn sicrhau mynediad digonol i'r ystod o aelodau staff arbenigol sydd ei angen.*
- *Mae rheolwyr ac aelodau staff yn arddangos weledigaeth uchelgeisiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant a phobl ifanc y maent yn gweithio â hwy.*

## 5. Mae trefniadau llywodraethu, partneriaeth a rheolaeth yn effeithiol

Mae trefniadau llywodraethu, partneriaeth a rheoli effeithiol yn eu lle. Mae'r rhain yn galluogi'r TTI i fodloni amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol a chysylltiedig, ac i gyflenwi a chynnal gwasanaethau o ansawdd da.

### 5.1 Arweinyddiaeth a llywodraethu - mae amcanion cyfiawnder troseddol ac amcanion cysylltiedig yn cael eu bodloni

5.1.1 Mae'r bartneriaeth TTI a'r Bwrdd Rheoli yn darparu llywodraethu effeithiol i sicrhau bod amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol yn cael eu bodloni, a bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu, eu dioddefwyr a'r gymuned leol. Mae cyfle cyfartal a ffactorau amrywiaeth ehangach yn cael eu blaenoriaethu drwy'r cyfan.

Dangosyddion Ansawdd:

- *Mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan bartneriaeth y TTI, drwy'r Bwrdd Rheoli a threfniadau llywodraethu eraill, yn effeithiol wrth sicrhau bod amcanion cyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol yn cael eu bodloni; yn arbennig bod plant a phobl ifanc yn llai tebygol o droseddu, bod dioddefwyr yn cael eu diogelu a bod plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn cael eu cadw'n ddiogel.*
- *Mae strwythurau strategol lleol yn hwyluso'r gwaith o gyflawni amcanion lleol a chenedlaethol.*

- *Mae cadeirydd y Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth drwy ddatblygu synergedd rhwng aelodau ac annog her. Mae'r aelodau yn cael eu cefnogi a'u dal i gyfrif yn eu gwaith, fel y mae Rheolwr y TTI*[2]*.*
- *Mae aelodau yn mynychu ac yn cyfrannu'n effeithiol at waith y Bwrdd.*
- *Mae aelodau'r Bwrdd a phobl berthnasol eraill yn derbyn ac yn deall data meintiol ac ansoddol am berfformiad y TTI, sy'n amserol ac yn dangos gwelliannau dros gyfnod o amser.*
- *Mae aelodau'r Bwrdd yn dal Rheolwr y TTI i gyfrif a lle mae hynny'n angenrheidiol maent yn comisiynu gwaith ar berfformiad er mwyn nodi a chyflawni gwelliannau.*
- *Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau clir ac atebol sy'n seiliedig ar wybodaeth gadarn.*
- *Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod ganddo ymwybyddiaeth gyfredol am y ffactorau sy'n ymwneud â throseddu ac anghenion eraill plant a phobl ifanc yn ei ardal, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu comisiynu a'u darparu.*
- *Mae cynllun cyfiawnder ieuenctid yn ei le sy'n helpu i gyflenwi amcanion cyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol drwy ragweld anghenion y dyfodol a gosod blaenoriaethau.*
- *Mae cynlluniau cyfiawnder ieuenctid yn cael eu hintegreiddio â chynlluniau perthnasol eraill ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gwneud mor debygol â phosibl y bydd amcanion lleol a chenedlaethol yn cael eu bodloni.*
- *Mae adnoddau digonol a phriodol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion asesedig.*
- *Mae Bwrdd Rheoli'r TTI, y TTI a'i bartneriaid yn mynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth, gan roi sylw i ffactorau amrywiaeth trwy gydol eu gwaith, a chan ymdrin â ffactorau gwahaniaethol gwirioneddol neu bosibl lle maent yn bodoli.*
- *Mae ffactorau amrywiaeth perthnasol sy'n ymwneud â chymunedau lleol, gan gynnwys patrymau ethnigrwydd a throseddu, yn cael eu nodi ac mae cynlluniau yn cael eu cyflwyno i ymdrin â'u heffaith.*
- *Ceir ymateb cadarnhaol ac amserol i wella gwasanaethau yn dilyn datblygiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, datblygiadau polisi cenedlaethol a lleol, arolygu ac archwilio, ac ymgysylltu cadarnhaol gyda phrosesau gwella eraill.*
- *Mae cynrychiolwyr TTI mewn fforymau strategol yn eirioli ar ran y TTI i sicrhau adnoddau a gwasanaethau ar gyfer adsefydlu plant a phobl ifanc yn llwyddiannus.*

[2] Rydym yn cyfeirio yn y meini prawf hyn at y Bwrdd Rheoli fel term generig sy'n ymwneud â'r corff arweiniol o fewn y bartneriaeth leol sy'n gyfrifol am lywodraethu a goruchwylio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

## 5.2 Partneriaethau - mae partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

5.2.1 Mae'r TTI wedi datblygu ystod o bartneriaethau, sy'n gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu, eu dioddefwyr a'r gymuned leol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol wrth leihau troseddu gan blant a phobl ifanc, amddiffyn eu dioddefwyr a chadw'r rheiny sydd wedi troseddu yn ddiogel.

Dangosyddion Ansawdd:

- *Mae partneriaid yn datblygu data meintiol ac ansoddol am eu cyfraniad at gyflawni perfformiad y TTI wrth leihau troseddu a bodloni amcanion cyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol eraill. Mae hyn yn amserol ac yn dangos gwelliannau dros amser. Maent yn defnyddio hyn i wella effeithiolrwydd canlyniadau'r TTI.*

[2] Yma rydym yn cyfeirio at Reolwr y TTI fel term cyffredinol sy'n ymgorffori'r rheolwr(wyr) llinell sy'n gyfrifol am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o aildroseddu

- *Mae gwaith a gomisiynwyd a ddarperir gan bartneriaid yn seiliedig ar anghenion a aseswyd, yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu ac yn cymryd ffactorau amrywiaeth priodol i ystyriaeth.*
- *Caiff cynlluniau a gytunwyd ar y cyd gan y TTI a phartneriaid allweddol eu gweithredu, a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae cynlluniau partneriaid yn darparu ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.*
- *Mae Bwrdd Rheoli'r TTI yn gweithio gydag asiantaethau partner i fynd i'r afael â thanberfformio, ac yn sicrhau bod gwelliannau o ran darparu gwasanaethau yn cael eu gweld.*
- *Mae'r TTI yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon gyda phartneriaid i gydlynu a rhannu adnoddau (er enghraifft, adnoddau dynol, trefniadau strwythurol, rhannu gwybodaeth, a darparu gwasanaethau).*
- *Mae partneriaid y TTI yn cyfrannu at strategaethau aml-asiantaeth lleol ac maent yn gweithio gyda chyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol a mudiadau eraill i sicrhau bod canlyniadau llwyddiannus yn cael eu cyflawni.*
- *Mae partneriaid yn sicrhau mynediad digonol i'r ystod o staff arbenigol sydd ei angen, fel bod y TTI wedi'i staffio'n briodol, a bod gwasanaethau yn cael eu darparu, gan asiantaethau partner, fel lleiafswm yn ôl y ddeddfwriaeth a chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder / y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.*
- *Darperir ymyriadau a gwasanaethau, gan gynnwys iechyd ac addysg, ar draws yr awdurdod i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu.*
- *Mae'r TTI yn gweithio'n dda gyda llysoedd i gynorthwyo i weinyddu cyfiawnder i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, yn effeithlon ac effeithiol.*
- *Mae'r TTI yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y Trefniadau lleol Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a threfniadau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB).*
- *Mae partneriaid yn cydweithio i sicrhau bod digon o adnoddau yn cael eu darparu i fodloni blaenoriaethau lleol, cenedlaethol a statudol, ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, dioddefwyr a'r gymuned leol.*

## 5.3 Rheoli'r Gweithlu - mae rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth o safon

5.3.1 Mae canlyniadau cadarnhaol yn fwy tebygol o gael eu cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu, eu dioddefwyr a'r gymuned leol drwy ddarparu trefniadau rheoli gweithlu effeithiol o fewn y TTI sy'n sicrhau bod staff o ansawdd digon uchel ac wedi'u hyfforddi'n dda yn eu swyddi i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen.

Dangosyddion Ansawdd:

- *Mae trefniadaeth y TTI yn canolbwyntio ar leihau aildroseddu ac mae wedi'i gynllunio i'w gwneud mor debygol â phosibl i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.*
- *Mae gan y rheolwyr y lefel ofynnol o wybodaeth, sgiliau ac amser i asesu a gwella ansawdd yr ymarfer, darparu goruchwyliaeth effeithiol ar staff a goruchwylio gwaith, a dal staff yn gyfrifol.*
- *Mae cyfansoddiad grŵp staff y TTI yn bodloni gofynion statudol ac yn ddigonol i alluogi'r TTI i ddarparu'r ystod o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid sydd eu hangen.*
- *Trwy ddefnyddio staff a secondiwyd ac fel arall mae'r TTI yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am y blaenoriaethau, arferion gweithredol a threfniadaeth partneriaid statudol a phartneriaid eraill. Defnyddir hyn i sicrhau ansawdd y gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ac i sicrhau bod gwasanaethau partneriaid yn cael eu defnyddio'n effeithiol pan fo angen.*

- *Caiff staff, rhai sydd wedi eu secondio a gwirfoddolwyr eu cefnogi i gyflawni eu gwaith i safon uchel, o fewn fframwaith sicrhau ansawdd clir a gymhwysir yn gyson.*
- *Mae gan y staff i gyd wybodaeth a dealltwriaeth am weledigaeth y TTI ar gyfer lleihau aildroseddu a chyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda hwy, a'u rôl wrth gyflawni'r weledigaeth honno.*
- *Mae'r staff yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso'n dda o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u rôl a'u hanghenion datblygu a nodwyd. Defnyddir rheoli perfformiad i wella gwasanaethau.*
- *Mae staff, rhai sy'n cael eu secondio a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant craidd effeithiol o ansawdd da (gan gynnwys drwy sefydlu staff newydd) yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.*
- *Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid a phartneriaid yn darparu cyfleoedd datblygu i alluogi'r holl staff i fodloni canlyniadau cyflawni gwasanaeth. Yn benodol mae hyfforddi staff yn hyrwyddo cyfleoedd datblygu, gydag anghenion hyfforddiant yn cael eu hadolygu a chynlluniau hyfforddi yn cael eu diwygio'n rheolaidd.*
- *Mae holl staff y TTI yn deall tasgau a ffiniau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ac yn gymwys ac yn meddu ar gymwysterau priodol i gyflawni eu gwaith.*
- *Mae staff yn deall, yn perchnogi ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r sefydliad. Ymatebant yn gadarnhaol i gyflwyno a gweithredu newid.*
- *Mae strategaeth gynhwysfawr ac effeithiol ar waith i gynnal parhad y gwasanaeth yn ystod cyfnodau o absenoldeb staff a gynlluniwyd a rhai heb eu cynllunio, ac i sicrhau bod gofynion staffio a sgiliau yn cael eu cydnabod a'u cynllunio.*
- *Mae gan y TTI weithdrefnau ffurfiol yn eu lle ar gyfer ymdrin â materion cymhwysedd a chwynion y staff yn ogystal â gweithdrefn gwynion ffurfiol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.*
- *Mae'r TTI yn cydnabod, yn dathlu ac yn gwobrwyo gwaith rhagorol ac yn rhannu'r arferion gorau.*

## 5.4 Sefydliad dysgu - mae dysgu a gwella yn cynyddu'r tebygolrwydd bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni a'u cynnal

5.4.1 Mae'r TTI yn sefydliad dysgu sy'n adolygu ac yn gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ganddo'i hun a chan eraill ar ei ran yn barhaus, er mwyn gwella a chynnal canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu, eu dioddefwyr a'r gymuned leol.

Dangosyddion Ansawdd:

- *Mae'r TTI a Bwrdd Rheoli'r TTI yn mesur a gwerthuso eu heffeithiolrwydd o ran lleihau aildroseddu a bodloni amcanion lleol a chenedlaethol eraill yn rheolaidd, ac yn defnyddio hyn i sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu bodloni.*
- *Mae'r TTI yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu data lleol amserol am effeithiolrwydd ei waith i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, ac yn defnyddio hyn i gynyddu'r tebygolrwydd bod ei amcanion yn cael eu bodloni.*
- *Mae dysgu o ganlyniadau cadarnhaol a rhai gwrthwynebus, gan gynnwys drwy gasglu a dadansoddi data, yn cael ei nodi a'i ddefnyddio i wella arferion.*
- *Ceir canolbwyntio clir ar wella parhaus, gyda fframwaith cynllunio a hunan asesu cadarn sy'n sicrhau bod meysydd datblygu yn cael eu deall ac yn cael sylw, a bod ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei wella.*
- *Mae cynlluniau, ymyriadau a chanlyniadau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i fod yn sylfaen ar gyfer gwelliant.*

- *Mae tîm rheoli'r TTI a phartneriaid yn derbyn ac yn chwilio am wybodaeth perfformiad, gan gynnwys cyfeiriad at berfformiad grwpiau dan anfantais a rhai sy'n cael eu gorgynrychioli, i wella ymarfer.*
- *Rhoddir blaenoriaeth i geisio barn partneriaid, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y TTI; gan gynnwys plant a phobl ifanc, eu rhieni /gofalwyr a dioddefwyr. Defnyddir eu barn i wella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.*
- *Mae'r TTI wedi ymgysylltu ag addysg uwch, rhaglenni peilot a chyrff eraill i helpu i werthuso effeithiolrwydd gwaith a wnaed yn annibynnol. Mae'n bosibl craffu ar ei waith.*
- *Ceir diwylliant dysgu yn y TTI sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi hyfforddiant a datblygiad parhaus ac sy'n cymhwyso gwersi, o ganlyniadau llwyddiannus a rhai gwrthwynebus, i wella a chynnal gwaith yn y dyfodol.*